Heol Watling
Llanrwst

01492 640 342
pennaeth@brogwydir.conwy.sch.uk
swyddfa@brogwydir.conwy.sch.uk

Cylchlythyr

5ed Orffennaf 2021

5th July 2021

Dyddiadur - Diary

6/7/21
Diwrnod i flwyddyn 3 a 4 yn Glanllyn.
Year 3 & 4's day in Glanllyn.

6/7/21
Cyfarfod rhithiol i rieni Meithrin newydd am 7 o'r gloch
Online meeting for parents of the new Nursery at 7pm.

7/7/21
Blwyddyn 5 yn Nant Bwlch yr Haearn
Year 5 at Nant Bwlch yr Haearn

8/7/21
Picnic i'r Meithrin a Derbyn
Picnic for Nursery and Reception

14/7/21
Gweithgaredd sypreis i bl 6
Surprise activity for year 6

15/7/21
Gwasanaeth ffarwelio blwyddyn 6
Year 6 leaving service

16/7/21
Diwrnod olaf y tymor
Last day o term

Rhiant Lywodraethwyr- Parent Governors

Llongyfarchiadau i Manon Dafydd ac Alaw Roberts am gael eu hethol fel rhiant lywodraethwyr. Diolch i bawb a fu'n pleidleisio, cafwyd ymateb da iawn.

Congratulations to Manon Dafydd and Alaw Roberts for being elected parent governors. Thanks to everyone who voted, we had a very good response.

Dosbarthiadau Mis Medi September Classes

Cafwyd diwrnod trosglwyddo llwyddiannus iawn ar y 1af o Orffennaf gyda'r disgyblion yn treulio amser yn eu dosbarthiadau newydd. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth ac am rannu barn gyda ni parthed y trefniadau newydd. Byddwn yn monitro llwyddiant y drefn newydd yn agos iawn yn drwy gasglu barn rhieni, disgyblion a staff yn dymhorol. Byddwn yn rhannu'r adborth hwn gyda holl rhanddeiliaid yr ysgol.

A very successful transition day was held on the 1st of July with the pupils spending time in their new classes. Thank you very much for your support and for sharing views with us regarding the new arrangements. We will monitor the success of the new arrangements very closely by collecting the views of parents, pupils and staff on a termly basis. We will share this feedback with all school stakeholders.

Gwasanaeth Ffarwelio Blwyddyn 6- year 6 Leavers Service

Yn anffodus rydym wedi derbyn arweiniad gan Sir Conwy, yn ein hysbysu nad yw hi'n bosib gwahodd rhieni i wasanaeth Ffarwelio flwyddyn 6 eleni. Rydym yn siomedig iawn am hyn ac yn benderfynol o drefnu prynhawn arbennig i'r disgyblion. Rydym felly wedi penderfynu cynnal gwasanaeth i holl staff a disgyblion yr ysgol ar gae'r ysgol ar y 15fed o Orffennaf (tywydd yn caniatáu).
Byddwn yn recordio'r gwasanaeth ac yn ei yrru i holl rieni blwyddyn 6.
Rydym yn trefnu diwrnod sypreis i ddisgyblion blwyddyn 6 ar y 14eg o Orffennaf.
Byddwn yn gyrru gwybodaeth i rieni drwy e-bost gan ein bod angen eich caniatâd.
Gofynnwn yn garedig i chi ei gadw'r wybodaeth yn gyfrinach!

Unfortunately we have received guidance from Conwy County, informing us that it is not possible to invite parents to the year 6 Farewell service this year. We are very disappointed about this but are determined to organise a special afternoon for the pupils. We have therefore decided to hold a service for all staff and pupils on the school field on the 15th of July (weather permitting). We will record the service and send it to all year 6 parents.
We're also organising a surprise day for year 6 pupils on the 14th of July. We will send information to parents by email as we need your permission. Please keep this information a secret!

Gwisg Ysgol- School Uniform

Hoffwn eich atgoffa y bydd disgwyl i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol ac esgidiau cywir i'r ysgol Mis Medi yn unol â pholisi'r ysgol. Cofiwch archebu eich dillad ysgol mewn digon o bryd. Mae'r wisg ysgol ar gael o Brodwaith, Pentrefoelas ac Ar y Gweill, Llanrwst.

In line with school policy, pupils will be expected to wear the correct school uniform and footwear in September. Remember to order your school clothes in plenty of time. The school uniform is available from Brodwaith Pentrefoelas and Ar y gweill in Llanrwst.

Siop Swap- Swap shop

Mae gan yr ysgol ychydig o siwmperi a chrysau polo ail law ar werth am £2 yr eitem. Cysylltwch â'r ysgol os hoffech brynu unrhyw beth. Derbyniwn yn ddiolchgar, unrhyw siwmper neu grys gyda logo arnynt i'r siop swap.

The school has a few sweaters and second hand polo shirts on sale for £ 2 per item. Please contact the school if you would like to buy anything. We gratefully accept any sweater or shirt with the logo on to the swap shop

Dychwelyd eitemau'r ysgol- Return School property

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y tymor, gofynnwn yn garedig i chi fynd ati weld os oes eitemau sy'n perthyn i'r ysgol yn eich cartref e.e. llyfrau darllen neu ddillad sbâr. Gofynnwn yn garedig i chi ddychwelyd yr eitemau cyn diwedd y tymor os gwelwch yn dda.

As we approach the end of term, we kindly ask if you have any school items in your home e.g. reading books or spare clothes. Please return the items before the end of term.

Cyfarfod Zoom rhieni Meithrin
Nursery parents Zoom meeting

Rydym wedi trefnu cyfarfod Zoom ar gyfer rhieni dosbarth meithrin mis Medi ar y 6ed o Orffennaf am 7 o'r gloch. Bydd y ddolen i'r cyfarfod yn cael ei anfon ar ebost a bydd cyfle i rieni ofyn cwestiynau cyn y noson. Edrychwn ymlaen i gwrdd a phawb.

We have arranged a Zoom meeting for parents of the September nursery class on the 6th of July at 7pm. The link to the meeting will be emailed and parents will have the opportunity to ask questions before the evening. We look forward to meeting everyone.

Clwb Brecwast Mis Medi/ September Breakfast Club

Gyda cyfyngiadau Covid, mae'n rhaid i ni fonitro niferoedd y clwb brecwast. Gofynnwn yn garedig i rieni lenwi'r holiadur hwn er mwyn bwcio lle i'w plant yn y clwb brecwast ym Mis Medi.

Due to Covid's restrictions, we must monitor the numbers of the breakfast club. We kindly ask parents to complete this questionnaire in order to book a place for their children at the breakfast club in September.

https://forms.gle/iajp5EMPNuepkKMy9

Her Gymraeg yr Wythnos

Dysgu a pherfformio anthem Cymru.

Learn and perform the Welsh anthem.

Eitemau coll- Lost and found

Dyma rai o'r eitemau a siwmperi heb enwau sydd yn y bocs pethau coll. Os ydych yn adnabod unrhyw beth, cysylltwch â ni. Bydd yr eitemau yn cael rhoi i siop elusen ar ddiwedd y tymor.

Here are some of the items and school jumpers without names in the lost and found box. If you recognise anything, please contact us. Items will be donated to a charity shop at the end of term.